OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 740 (Cy.100)

# TIROEDD COMIN, CYMRU

## Rheoliadau Tiroedd Comin (Gorchmynion Dadgofrestru a Chyfnewid) (Trefniadau Interim) (Cymru) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *7 Mawrth 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *8 Mawrth 2012* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel yr awdurdod cenedlaethol priodol gan adrannau 17(3), 24(1) a (2)(m) a 59(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tiroedd Comin (Gorchmynion Dadgofrestru a Chyfnewid) (Trefniadau Interim) (Cymru) 2012.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2012.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Cwmpas a dehongli

**2.**—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru, neu berson a benodwyd ganddynt, wedi caniatáu cais o dan adran 16 o Ddeddf 2006 ac wedi gwneud gorchymyn o dan adran 17 o Ddeddf 2006 o ganlyniad i ganiatáu'r cais hwnnw.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "awdurdod cofrestru tiroedd comin" ("*commons registration authority*") yw awdurdod cofrestru o dan Ddeddf 1965;

ystyr "Deddf 1965" ("*the 1965 Act*") yw Deddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965(**3**);

(**1**) 2006 p.26. Mae adran 61(1) yn cynnwys diffiniadau o "appropriate national authority" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

(**3**) 1965 p.64. Yn unol ag erthygl 4(1) o Orchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2012 (O.S. 2012/739 (Cy.99) (C.19)), hyd nes daw adran 1 o Ddeddf 2006 i rym, rhaid dehongli cyfeiriadau yn adrannau 16 neu 17 o Ddeddf 2006, at gofrestru tir fel tir comin neu fel maes tref neu bentref, fel cyfeiriadau at gofrestru tir felly o dan Ddeddf 1965, a rhaid trin gorchymyn o dan adran 17 o Ddeddf 2006 fel gorchymyn sy'n gwneud yn ofynnol bod yr awdurdod cofrestru tiroedd comin yn diwygio'r cofrestri a gynhelir gan yr awdurdod yn unol â Deddf 1965.

ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf Tiroedd Comin 2006;

ystyr "Cofnod Enghreifftiol" ("*Model Entry*") a ddilynir gan rif yw'r cofnod enghreifftiol sy'n dwyn y rhif hwnnw yn Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Cyffredinol neu Ran 1 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn(**4**);

ystyr "Cofnod Safonol" ("*Standard Entry*") a ddilynir gan rif yw'r cofnod enghreifftiol sy'n dwyn y rhif hwnnw yn Rhan 2 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn, neu gofnod sydd â'r un effaith o ran ei sylwedd(**5**);

mae "cofrestr tir comin" ("*register of common land*") a "cofrestr meysydd tref neu bentref" ("*register of town or village greens*") yn cyfeirio at y cofrestri a gynhelir gan awdurdod cofrestru tiroedd comin yn unol ag adran 3 o Ddeddf 1965;

ystyr "gorchymyn dadgofrestru" ("*deregistration order*") yw gorchymyn i awdurdod cofrestru tiroedd comin o dan adran 17(1) o Ddeddf 2006 (ac eithrio gorchymyn dadgofrestru a chyfnewid);

ystyr "gorchymyn dadgofrestru a chyfnewid" ("*deregistration and exchange order*") yw gorchymyn i awdurdod cofrestru tiroedd comin o dan adran 17(1) a (2) o Ddeddf 2006;

ystyr "y Rheoliadau Cyffredinol" ("*the General Regulations*") yw Rheoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Cyffredinol) 1966(**6**), ac ystyr "rheoliad Cyffredinol" ("*General Regulation*") a ddilynir gan rif yw'r rheoliad sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau Cyffredinol;

mae i "uned cofrestr" ("*register unit*") yr ystyr a roddir i "register unit" yn Rheoliad Cyffredinol 10.

### Dadgofrestru y tir a ryddheir

**3.** Pan fo awdurdod cofrestru tiroedd comin yn cael gorchymyn dadgofrestru neu orchymyn dadgofrestru a chyfnewid, rhaid iddo ddiwygio'r uned cofrestr sy'n cynnwys y cofrestriad o'r tir a ryddheir yn ei gofrestr o diroedd comin neu'i gofrestr o feysydd tref neu bentref, yn unol â Chofnod Safonol 11.

### Cofrestru tir cyfnewid

**4.**—(1) Pan fo awdurdod cofrestru tiroedd comin yn cael gorchymyn dadgofrestru a chyfnewid, mae darpariaethau canlynol y rheoliad hwn yn gymwys, yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaethau yn y gorchymyn sy'n pennu'r modd y mae'r tir cyfnewid i gael ei gofrestru.

(2) Caiff yr awdurdod cofrestru gofrestru'r tir cyfnewid—

(a) drwy ddiwygio'r uned cofrestr yn ei gofrestr o dir comin neu'i gofrestr o feysydd tref neu bentref sy'n cynnwys y cofrestriad o'r tir rhyddhau; neu

(b) drwy fewnosod uned cofrestr newydd mewn perthynas â'r tir cyfnewid.

(3) Os yw'r awdurdod cofrestru yn cofrestru'r tir cyfnewid drwy ddiwygio'r uned cofrestr sy'n cynnwys y cofrestriad o'r tir rhyddhau, rhaid i'r awdurdod wneud hynny yn unol â Chofnod Safonol 12.

(4) Os yw'r awdurdod cofrestru yn cofrestru'r tir cyfnewid drwy fewnosod uned cofrestr newydd mewn perthynas â'r tir cyfnewid, mae paragraffau (5) i (9) yn gymwys.

(5) Rhaid i'r awdurdod cofrestru ddilyn Cofnod Enghreifftiol 4 mor agos ag y bo modd, gyda pha bynnag amrywiadau ac addasiadau sy'n ofynnol yn yr amgylchiadau, a chan—

(**4**) Mae Cofnodion Enghreifftiol 1-22 wedi eu cynnwys yn y Rheoliadau Cyffredinol, a Chofnodion Enghreifftiol 23-32 (nas cyfeirir atynt yn y Rheoliadau hyn) yn O.S. 1968/989, 1970/1371 a 1972/437.

(**5**) Mae'r Cofnodion Safonol 1-10 i'w cael yn y Rheoliadau Cyffredinol ac O.S. 1968/989, 1972/437 a 1990/311.

(**6**) O.S. 1966/1471, y gwnaed diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(a) rhoi'r geiriau "Registered pursuant to an order under section 17 of the Commons Act 2006.", yn lle'r frawddeg sy'n dechrau "Registered pursuant to application"; a

(b) hepgor y geiriau "(Registration provisional.)".

(6) Mae paragraffau (2) i (6) o Reoliad Cyffredinol 10 yn gymwys i'r cofrestriad.

(7) Mae paragraffau (4) i (8) o reoliad 9 o Reoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Gwrthwynebiadau a Mapiau) 1968(**7**) d(newidiadau o ran mapiau cofrestr amodol) yn gymwys, yn darostyngedig i'r addasiadau canlynol—

(a) rhaid dehongli cyfeiriadau at "new map" ("map newydd") fel cyfeiriadau at unrhyw fap a gymerir i'w ddefnyddio at ddibenion y rheoliad hwn;

(b) yn hytrach na'r raddfa a bennir ym mharagraff (4), rhaid paratoi pob map newydd ar Fap Ordnans o raddfa ddim llai nag 1:2,500 os oes un ar gael, ac ym mhob achos, ddim llai nag 1:10,000; ac

(c) mae paragraff (7) yn gymwys fel pe bai'r gair "provisional" wedi ei hepgor.

(8) Rhaid i bob map newydd a gymerir i'w ddefnyddio gael ei stampio gan yr awdurdod cofrestru a'i lofnodi ar ran yr awdurdod, a bydd y map wedyn yn ffurfio rhan o'r gofrestr.

(9) Mae'r gofyniad ym mharagraff (8), am i awdurdod cofrestru stampio map newydd, yn ofyniad am beri bod argraff o stamp swyddogol yr awdurdod cofrestru, fel y'i disgrifir yn Rheoliad Cyffredinol 3, yn cael ei gosod ar y map, a rhaid i'r argraff honno gynnwys y dyddiad y'i gosodir.

### Cofrestru hawliau comin dros dir cyfnewid

**5.**—(1) Pan fo awdurdod cofrestru tiroedd comin, yn unol â gorchymyn dadgofrestru a chyfnewid, yn cofrestru tir cyfnewid drwy fewnosod uned cofrestr newydd mewn perthynas â'r tir hwnnw, mae'r darpariaethau canlynol yn gymwys, yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaethau yn y gorchymyn sy'n pennu'r modd y mae hawliau comin i'w cofrestru fel rhai arferadwy dros y tir cyfnewid.

(2) Os oedd hawliau comin, yn union cyn dadgofrestru'r tir rhyddhau, wedi eu cofrestru fel rhai arferadwy dros y tir rhyddhau ac nid unrhyw dir arall, rhaid i'r awdurdod cofrestru gofrestru'r hawliau hynny fel rhai arferadwy dros y tir cyfnewid, drwy ddilyn Cofnod Enghreifftiol 7 mor agos ag y bo modd, gyda pha bynnag amrywiadau ac addasiadau sy'n ofynnol yn yr amgylchiadau, a chan hepgor o golofn 4 y geiriau o "except" ymlaen i'r diwedd.

(3) Os oedd hawliau comin, yn union cyn dadgofrestru'r tir rhyddhau, wedi eu cofrestru fel rhai arferadwy dros ddarn o dir a gyfansoddir o'r tir rhyddhau (Darn A) a thir arall (Darn B), rhaid i'r awdurdod cofrestru gofrestru'r hawliau hynny fel rhai sy'n arferadwy dros y tir cyfnewid yn ychwanegol at barhau'n arferadwy dros Ddarn B, yn unol â Chofnodion Enghreifftiol 33 (mewn perthynas â Darn B) a 34 (mewn perthynas â'r tir cyfnewid) gyda pha bynnag amrywiadau ac addasiadau sy'n ofynnol yn yr amgylchiadau.

### Gwybodaeth am ddiwygiadau yn y cofrestri

**6.** Pan fo awdurdod cofrestru tiroedd comin wedi diwygio ei gofrestri yn unol â gorchymyn dadgofrestru neu orchymyn dadgofrestru a chyfnewid, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig o'r ffaith honno, gan gynnwys manylion o'r diwygiad a wnaed, i'r canlynol—

(a) y ceisydd am y gorchymyn; a

(b) Gweinidogion Cymru, neu'r person a benodwyd ganddynt, a wnaeth y gorchymyn.

(**7**) O.S. 1968/989 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1990/311. Diwygiwyd hefyd gan offerynnau eraill, nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

*John Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, un o Weinidogion Cymru

7 Mawrth 2012

YR ATODLEN

Rheoliad 2

# RHAN 1

## COFNODION ENGHREIFFTIOL

**Cofnodion Enghreifftiol Rhifau 33 a 34**

*Ar gyfer yr adran hawliau yn y gofrestr*

Yn y cofnod cofrestr sy'n ymwneud â'r tir rhyddhau ("register unit CL X"):

| | 1<br>No. and date of entry | 2<br>No. and date of application | 3<br>Name and address of every applicant for registration, and the capacity in which the applicant applied | 4<br>Particulars of the right of common, and of the land over which it is exercisable | 5<br>Particulars of the land (if any) to which the right is attached |
|---|---|---|---|---|---|
| | 17 12 April 1967 | 301<br>3 April 1967 | John Dale, Thatcham Farm, Fursdon, Barset. Tenant. | To graze—<br>(a) 20 head cattle, or<br>(b) 100 sheep, over the whole of the land comprised in this register unit.<br>~~(Registration provisional)~~ | Thatcham Farm, Fursdon, Barset, as shown hatched blue on the supplemental map bearing registration 17. |
| **No. 33** | 18 12 December 2007 | Not applicable | Registration amendment: entry No. 17 above is modified by entries Nos. 1 and 2 in register unit CL Y. | | |

Yn y cofnod cofrestr sy'n ymwneud â'r tir rhyddhau ("register unit CL Y"):

| | 1<br>No. and date of entry | 2<br>No. and date of application | 3<br>Name and address of every applicant for registration, and the capacity in which the applicant applied | 4<br>Particulars of the right of common, and of the land over which it is exercisable | 5<br>Particulars of the land (if any) to which the right is attached |
|---|---|---|---|---|---|
| **No. 34** | 1<br>12 December 2007 | Not applicable | Not applicable. Registration made pursuant to an order made by or on behalf of the Welsh Ministers on ….20…under section 17 of the Commons Act 2006. | (See entries Nos. 17 and 18 in register unit CL X) The right to graze—<br>(a) 20 head cattle, or<br>(b) 100 sheep, over register unit CL X is also exercisable over the whole of this register unit. | Thatcham Farm, Fursdon, Barset, as shown hatched blue on the supplemental map bearing registration 17 under register unit CL X. |

# RHAN 2

## COFNODION SAFONOL

**Cofnod Safonol 11**

*Ar gyfer yr adran tir yn y gofrestr*

| No. and date of entry | Description of the land, reference to the register map, registration particulars, etc. |
|---|---|
| | Registration amendment: [the whole] [the part]* of the land comprised in this register unit [shown hatched violet on the register map and marked [R1]* was removed from the register of [common land] [town or village greens]* on……20… pursuant to an order made by or on behalf of the Welsh Ministers on…20…under section 17 of the Commons Act 2006. |

* Delete inapplicable wording

**Cofnod Safonol 12**

*Ar gyfer yr adran tir yn y gofrestr*

| No. and date of entry | Description of the land, reference to the register map, registration particulars, etc. |
|---|---|
| | The land comprised in the registration at entry no…("the replacement land") was registered as [common land] [a town or village green]* on…20.. in substitution for the land removed from the register at entry no…("the release land") pursuant to an order made by or on behalf of the Welsh Ministers on…20.. under section 17 of the Commons Act 2006. The replacement land became on [date of registration] subject to the rights of common (if any) which were immediately before that date exercisable over the release land. |

*Delete inapplicable wording.

## EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r Nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae adrannau 16 a 17 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 ("Deddf 2006") yn gwneud darpariaeth ar gyfer ceisiadau i ddadgofrestru tir a gofrestrwyd fel tir comin neu fel maes tref neu bentref ac i gofrestru tir arall yn gyfnewid.

Yng Nghymru mae ceisiadau o'r fath i gael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru neu gan berson a benodir ganddynt. Os caniateir cais, mae'n ofynnol o dan adran 17(1) a (2) o Ddeddf 2006 bod Gweinidogion Cymru yn gwneud gorchymyn, sy'n cyfarwyddo'r awdurdod cofrestru tiroedd comin i ddiwygio'i gofrestr o diroedd comin neu o feysydd tref neu bentref yn unol â hynny.

Hyd yma, nid yw Rhan 1 o Ddeddf 2006 wedi ei dwyn i rym yn llawn yng Nghymru. Hyd nes deuir ag adrannau 1 i 3 i rym, rhaid trin gorchymyn o dan adran 17 fel pe bai'n orchymyn sy'n cyfarwyddo'r awdurdod cofrestru i ddiwygio'r cofrestri a gynhelir gan yr awdurdod yn unol â Deddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965 ("Deddf 1965"), yn rhinwedd darpariaethau trosiannol a gynhwysir yng Ngorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2012 (O.S. 2012/739 (Cy.99) (C.19)).

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r modd y mae'n rhaid i awdurdod cofrestru ddiwygio'r cofrestri a gynhelir ganddo yn unol â Deddf 1965, pan gaiff yr awdurdod cofrestru orchymyn o dan adran 17.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei baratoi yngl?n â chostau a buddion tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi ohono gan Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu ar-lein o www.cymru.gov.uk.